

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2001 Rhif 3910 (Cy.322)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2001

*Wedi'u gwneud - - 4 Rhagfyr 2001
Yn dod i rym - - 31 Rhagfyr 2001*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 140(4) a 143(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988⁽¹⁾ a pharagraffau 4, 5 a 6 o Atodlen 8 iddi, sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru⁽²⁾:

Enwi, cychwyn a dehongli

- 1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2001 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2001.
- (2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 1992" yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992⁽³⁾.

Diwygio Rheoliadau 1992

2. Ynglyn â'r blynnyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2002, diwygir Atodlenni 1, 2 a 4 i Reoliadau 1992 fel a ganlyn: —
 - (a) ym mharagraff 3(1)(b) o Atodlen 1, yn lle "75 per cent" rhoddir "90 per cent";
 - (b) ym mharagraff 2(12) o Atodlen 2, yn lle "1.004" rhoddir "0.995"; ac
 - (c) yn lle Atodlen 4 i Reoliadau 1992 rhoddir yr Atodlen a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(1) 1988 p.41.

(2) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, [O.S. 1999/672](#).

(3) [O.S. 1992/3238](#), a ddiwygiwyd gan [O.S. 1993/1505](#), [1993/3077](#), [1994/547](#), [1994/1742](#), [1994/3125](#), [1995/3235](#), [1996/3018](#), [1997/3003](#), [1998/2962](#), [1999/3439](#) (Cy.47) a 2000/3382 (Cy. 220).

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar
ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

4 Rhagfyr 2001

John Marek
Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

ATODLEN

Rheoliad 2

“SCHEDULE 4

Regulation 6

ADULT POPULATION FIGURES

<i>Billing authority area</i>	<i>Prescribed figure</i>
Blaenau Gwent	54,438
Bridgend	101,462
Caerphilly	128,738
Carmarthenshire	133,164
Cardiff	251,733
Ceredigion	58,082
Conwy	89,317
Denbighshire	71,214
Flintshire	114,556
Gwynedd	91,623
Isle of Anglesey	50,068
Merthyr Tydfil	41,805
Monmouthshire	68,197
Neath Port Talbot	106,999
Newport	104,507
Pembrokeshire	88,716
Powys	99,692
Rhondda Cynon Taff	184,119
Swansea	180,714
Torfaen	68,089
Vale of Glamorgan (The)	93,719
Wrexham	97,374”

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

EXPLANATORY NOTE

(*Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau*)

O dan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mae'n ofynnol i awdurdodau bilio yng Nghymru dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cynhwysir rheolau i gyfrifo'r symiau hynny yn Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau hynny drwy roi canran newydd ym mharagraff 3(1) (b) o Atodlen 1 (didyniadau o'r swm gros), lloosydd newydd ym mharagraff 2(12) o Atodlen 2 (rhagdybiaethau ynglyn â'r swm gros) ac Atodlen 4 newydd (ffigurau poblogaeth oedolion).